Ysgol Gyfun Gymunedol Penweddig Ffordd Llanbadarn Llangawsai Aberystwyth SY23 3QN
T (01970) 639499 **F** (01970) 626641 **E** ymholiadau@penweddig.ceredigion.sch.uk

6.5.21

Annwyl Riant/Warcheidwad

Disgwyliadau

Wrth i ni ddychwelyd i ryw lefel o normalrwydd yn yr ysgol, rydym yn awyddus i sicrhau eich cefnogaeth yn ein cenhadaeth i rai o ddisgwyliadau sylfaenol yr ysgol. Ein dymuniad yw bod pob disgybl yn glynu wrth y disgwyliadau hyn a dilyn ein rheolau ynglŷn â Chymreictod, Ymddygiad, Parch at eraill a'r wisg ysgol. Rydyn ni'n deall fod ail-gydio mewn trefniadau ysgol wedi cymryd ychydig o amser i bawb, felly rydyn ni wedi bod yn hyblyg dros yr wythnosau cyntaf ond byddwn yn cynyddu ein pwyslais ar ein disgwyliadau sylfaenol dros yr wythnosau nesaf.

Cymreictod

Cymreictod a'r Iaith Gymraeg oedd y rheswm am sefydlu Ysgol Penweddig ac mae hwn yn graidd i'n disgwyliadau a'n pwrpas ni fel ysgol. Deallwn fod rhai wedi bod yn siarad llawer o Gymraeg yn ystod y cyfnod clo ac eraill braidd dim, ond yn yr ysgol disgwyliwn glywed yr iaith gan ddisgyblion mewn gwersi, yn y coridorau, mewn gweithgareddau allgyrsiol ac unrhyw bryd mae disgyblion ar safle'r ysgol. Mae defnydd o'r iaith yn gyswllt cryf gyda hanes a diwylliant Cymru sydd yn etifeddiaeth i ni gyd, beth bynnag ein cefndiroedd. Mae gwersi, arholiadau ac asesiadau yn cael eu cynnal yn yr iaith ac mae defnyddio'r iaith yn rheolaidd yn gwella dealltwriaeth a mynegiant ac yn cynorthwyo disgyblion i gyrraedd safonau gwell ar ddiwedd eu gyrfa ysgol.
Gofynnwn yn garedig am eich cydweithrediad os yw disgybl yn gwrthod cydymffurfio gyda'r disgwyliadau sylfaenol hyn.

Ymddygiad a Pharch tuag at eraill

Mae nifer fach o ddisgyblion wedi colli'r cyfle i ddatblygu a chryfhau agweddau o'u sgiliau cymdeithasol a chydweithio yn ystod y cyfnod clo. Gall hwn arwain at ymddygiad sy'n annerbyniol ac yn amharu ar ddisgyblion eraill a'r addysgu yn yr ysgol. Dros yr wythnosau nesaf byddwn yn cwrdd gyda disgyblion sydd wedi dechrau dangos patrwm o bwyntiau ymddygiad a chysylltu gyda chi fel rhieni er mwyn i ni sicrhau bod yr unigolion hyn cael y cyfle i ddangos y safonau disgwyliedig.
Un agwedd o ymddygiad yw dangos parch tuag at bob aelod o'r ysgol. Mae'r cwricwlwm newydd hefyd yn pwysleisio pwysigrwydd empathi a deall safbwyntiau eraill. Mae ymgyrchoedd megis *#metoo*, *Everyone's invited*, *Show Racism the Red Card* yn ein hatgoffa o bwysigrwydd parch tuag at bob aelod o'r gymuned. Yn anffodus mae rhai achosion wedi codi dros y misoedd diwethaf gyda nifer fach o ddisgyblion yn siarad gyda disgyblion eraill mewn ffordd anaddas ac amharchus. Byddwn ni'n cysylltu gyda rhieni disgyblion fel rhan o'n hymateb os fydd achos yn digwydd yn y dyfodol a bydd cynnydd yn ein ffocws ar yr elfen hon mewn darpariaeth ABCh a gwaith tiwtor.

Gwisg Ysgol

Pwrpas gwisg ysgol yw sicrhau bod ein disgyblion yn edrych yn daclus, yn cymryd balchder yn ei hymddangosiad ac yn gwisgo mewn ffordd addas ar gyfer eu gwersi ysgol. Yn ogystal mae'n cefnogi ymddygiad, disgyblaeth a lleihau achosion o fwlio, mae'n sicrhau nad oes gwahaniaeth rhwng y disgyblion ac fe fydd pawb yn rhannu'r un hunaniaeth.

Dros yr wythnosau diwethaf rydyn ni wedi dangos hyblygrwydd gyda gwisg disgyblion oherwydd problemau gyda disgyblion yn tyfu tra bod y siopau ar gau. Ar ddiwedd yr wythnos nesaf bydd y siopau wedi bod ar agor am fis, felly byddwn ni'n dychwelyd i'r disgwyliadau gwisg ysgol arferol ar gyfer Mai 17eg.

Dyma ein disgwyliadau yn unol â'r polisi presennol:

- Crys chwys du gyda logo'r ysgol
- Crys polo gyda logo'r ysgol
- Trowsus ffurfiol du o ddefnydd polyestr neu drowsus byr wedi eu teilwra
- **Dim jîns, 'jeggings' na throwsus anffurfiol eraill megis chinos.**
- Sgert du, hyd at y pen-glin
- Cotiau plaen: Dim siacedi gyda geiriau, logos. Dim lledr, corduroy.
- Dim siwmperi llac, hoodies neu dracwisg o unrhyw fath.
- Esgidiau du sawdl isel/fflat
- Dim bŵts na sodlau uchel na trenyrs gyda logo gweladwy.
- Sanau plaen.
- Does dim hawl i'ch plentyn gwisgo gemwaith (heblaw am un pâr o glustlysau)
- Ni chaniateir colur na farnais ewinedd nag ychwaith lliw na phatrymau gwallt annaturiol.

Ar ddiwrnodau ymarfer corff mae disgyblion yn dod i'r ysgol yn eu cit ymarfer corff a gallent wisgo siwmper ysgol dros hwn, gyda trowsus tracwisg neu 'joggers' dros y siorts. Mae hwn ond yn berthnasol ar ddiwrnodau gyda gwersi ymarfer corff ac nid ar diwrnodau eraill.

Ffonau Symudol

Mae'r defnydd o dechnoleg wrth addysgu yn un maes sydd wedi newid yn ddramatig yn ystod y cyfnod clo wrth i ni ddysgu o bell. Rydym yn deall rôl dyfeisiau symudol fel adnoddau addysgol ond mae'n rhaid i ni bwysleisio y dylai dyfeisiau symudol fod mewn bagiau a'u diffodd yn ystod y diwrnod ysgol. Ymdrinnir â ffonau sy'n cael eu camddefnyddio mewn gwersi fel yr amlinellir yn y trefnydd disgyblion (tudalen 12).

Fe fydd aelodau o'r Uwch Dim Rheoli ac Athrawon Dosbarth yn monitro cydymffurfiaeth gyda'n disgwyliadau yn ddyddiol. Ar gyfer gwisg ysgol bydd disgyblion yn cael rhybydd am wisg anaddas dros yr wythnos nesaf er mwyn iddynt gael cyfle i ddatrys hwn cyn Mai 17eg.

Diolch am eich cydweithrediad



Dr Rhodri Thomas
(Pennaeth)

Ysgol Gyfun Gymunedol Penweddig Ffordd Llanbadarn Llangawsai Aberystwyth SY23 3QN
T (01970) 639499 **F** (01970) 626641 **E** ymholiadau@penweddig.ceredigion.sch.uk

6.5.21

Dear Parent/Guardian

School expectations

As we return to some level of normality at school, we are keen to secure your support in our mission for some of the basic expectations of the school. We want all pupils to adhere to these expectations and follow our rules regarding Cymreictod/Welshness, Behaviour, Respect for others and the school uniform. We understand that readjusting to working on the school site has taken a while for everyone, so we have been flexible over the first few weeks but will be increasing our emphasis on our basic expectations over the coming weeks.

Cymreictod/Welshness

Welshness and the Welsh Language were the reason for establishing Ysgol Penweddig and this is at the heart of our expectations and purpose as a school. We understand that some pupils have been speaking a lot of Welsh during the lock-up period and others have not, but at school we expect to hear the language from pupils in lessons, in the corridors, in extra-curricular activities and anytime pupils are on the school site. The language is a strong link to the history and culture of Wales which is the inheritance of us all, regardless of our backgrounds. Lessons, examinations and assessments are conducted in the language and using the language regularly improves understanding and expression and helps pupils reach better standards at the end of their school career.
We kindly ask your co-operation if a pupil refuses to comply with these basic expectations.

Behaviour and Respect for others

A small number of pupils have missed the opportunity to develop and strengthen aspects of their social and co-operation skills during the lockdown period. This can lead to unacceptable behaviour that disrupts other pupils and the teaching at school. Over the next few weeks we will be meeting pupils who have begun to show a pattern of behaviour points and contacting you as parents so that we can ensure that these individuals have the opportunity to demonstrate the expected standards.
One aspect of behaviour is to show respect for all members of the school. The new curriculum also emphasizes the importance of empathy and understanding the perspectives of others. Campaigns such as #metoo, Everyone's invited and Show Racism the Red Card remind us of the importance of respect for all members of the community. Unfortunately, some cases have arisen in recent months with a small number of pupils talking to other pupils in an inappropriate and disrespectful way. We will contact parents of pupils as part of our response if a case occurs in the future and there will be an increased focus on this element of PSE provision and tutor work.

School uniform

The purpose of school uniform is to ensure that our pupils look neat, take pride in their appearance and dress appropriately for their school lessons. It also supports behaviour, discipline and reduces incidents of bullying. It also ensures that there is no difference between the pupils and everyone shares the same identity.

Over the past few weeks we have shown flexibility in pupil uniform due to problems with pupils growing while the shops are closed. At the end of next week the shops will have been open for a month, so we will return to normal school uniform expectations.
These are our expectations in accordance to the policy:

- *Black sweatshirt with the school logo.*
- *polo shirt with the school logo.*
- *Formal black trousers in polyester or tailored shorts.*
- ***No jeans, jeggings or casual trousers.***
- *Black knee length skirt*
- *Plain coats: no jackets with words, logos. Not in leather, corduroy.*
- *No loose fitting jumpers, hoodies or tracksuit jackets, of any type.*
- *Traditional black shoes, low heeled/flat.*
- *No boots, high heels or trainers with visible logos.*
- *Plain socks*
- *You child is not allowed to wear allowed to wear jewellery (apart from one pair of earrings)*
- *Make up and nail varnish are not allowed.*

On days with PE lessons, pupils can come to school in their PE kit and can wear a school jumper over this, with tracksuit trousers or joggers over the shorts. This only applies on days with PE lessons and not on other school days.

Mobile Phones

The use of technology in teaching is one area that has changed dramatically during the lockdowns as we moved to teaching from a distance. We understand the role of mobile devices as an educational aid but must emphasise that mobile devices should be in bags and switched off during the school day. Phones that are misused in lessons will be dealt with as outlined in the pupil organiser (page 13).

Members of the Senior Management Team and Class Teachers will monitor compliance with our expectations on a daily basis. For school uniforms pupils will be issued with a reminder about unsuitable clothing over the next week so that they can resolve this before May 17th.

Thank you very much for your cooperation.

Dr Rhodri Thomas
(Headteacher)